



Fframwaith Cymorth ac Ymgysylltu Ymchwil: sut mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag ymchwilwyr allanol

1. Diben y Fframwaith Cefnogi ac Ymgysylltu ar Ymchwil (fframwaith)

1.1 Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol a chefnogi gwelliant a datblygiad. Mae ymchwilwyr academaidd yn aml yn gofyn i ni gefnogi pan fyddant yn gwneud cais am gyllid ymchwil neu'n cynllunio ac yn cynnal ymchwil. Gall ymchwilwyr ac ymarferwyr ofyn i ni:

- hyrwyddo astudiaeth ymchwil ar ein sianeli cyfathrebu, megis cyfryngau cymdeithasol
- cymeradwyo eu hastudiaeth, y gallant ei nodi ar eu ceisiadau
- eistedd ar baneli ar gyfer adolygu ceisiadau am gyllid
- eistedd ar grwpiau cynghori neu lywio ar gyfer astudiaethau ymchwil
- cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil fel cyfranogwyr, er enghraifft ar gyfer cyfweiliadau neu grwpiau ffocws
- ysgrifennu llythyrau i gefnogi ceisiadau am gyllid yn gyffredinol, er enghraifft cadarnhau bod y pwnc neu'r cwestiwn ymchwil o ddiddordeb sylweddol i ofal cymdeithasol yng Nghymru neu gadarnhau y byddwn yn cefnogi ymchwilwyr gyda thasgau prosiect penodol
- rhoi caniatâd i ddefnyddio data a gedwir ym Manc Data SAIL ar bobl cofrestredig
- rhoi caniatâd i ddefnyddio ein data ar wrandawiadau addasrwydd i ymarfer
- partneru yn ffurfiol mewn astudiaethau ymchwil er enghraifft fel rhan o gonsortium
- gwahodd pobl gofrestrdig ac unigolion eraill i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil.

1.2 Ein huchelgais yw helpu i wella gofal cymdeithasol drwy gymhwyso polisi yn seiliedig ar dystiolaeth, arfer a gwasanaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ac mae cefnogi ymchwil berthnasol yn rhan hanfodol o greu dystiolaeth dda. Cafodd ein gweithgareddau ymchwil rhwng 2018 i 2023 eu gosod allan yn ein [strategaeth ymchwil a datblygu bum mlynedd](#). Rhwng 2024 a 2029, mae'r rhain yn cael eu nodi yn ein strategaeth ymchwil, arloesi a gwella newydd, [Ymlaen](#).

- 1.3 Mae'r fframwaith ar gyfer rheoli ein cefnogaeth ac ymgysylltiad ag **ymchwil gofal cymdeithasol** – ceir amlinelliad o'r hyn a olygwn wrth ymchwil gofal cymdeithasol yn Atodiad 1.
- 1.4 Er mwyn sicrhau bod unrhyw ymchwil sy'n cynnwys naill ai data neu adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru nid yn unig yn bodloni nodau'r strategaeth, ond yn gyson â'n huchelgais, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, rydym wedi sefydlu fframwaith cymorth ymchwil ac ymgysylltu i adolygu, cymeradwyo neu wrthod ceisiadau gan ffynonellau mewnol ac allanol.
- 1.5 Rydym wedi'n cofrestru fel Rheolwr Data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu data ein cwsmeriaid a chydymffurfio â deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018, ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif. Mae'r ffyrdd rydym yn casglu ac yn prosesu data personol wedi'u nodi yn ein [hysbysiad preifatrwydd](#).
- 1.6 Fel corff cyhoeddus, rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol lle bo hynny'n angenrheidiol i gyflawni tasgau sydd er budd y cyhoedd neu i gyflawni ein swyddogaethau swyddogol, y mae ymchwil yn un ohonynt. Mae Adran 70 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn datgan: Gall Gofal Cymdeithasol Cymru Cymru hyrwyddo neu ymgymryd ag astudiaethau cymharol neu astudiaethau eraill a gynlluniwyd i'w alluogi i wneud argymhellion o dan adran 69 ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaeth gofal a chymorth

2. Meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau am gymorth ac ymgysylltu

- 2.1 Mae rhaid i'n cyfraniad i ymchwil fod yn gymesur â defnyddioldeb ac arwyddocâd tebygol yr ymchwil. Felly, rydym yn cadw cefnogaeth ar gyfer ymchwil sy'n ymddangos yn ddichonadwy, yn foesebol gadarn ac effeithiol.
- 2.2 Ystyrir trothwy uwch ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys cyswllt â rhanddeiliaid neu fynediad at ddata cysylltiedig addasrwydd i ymarfer. Nodir y meini prawf hyn isod.

Y prif ymchwilydd a'r tîm ymchwil

- 2.3 Rhaid i unigolion fod yn gysylltiedig â sefydliad academaidd neu sefydliad arall a barnu'n gymwys (h.y. bod â chymwysterau addas, sgiliau a phrofiad ymchwil perthnasol) i ddarparu ymchwil o ansawdd da yn y maes.
- 2.4 Ni chefnogir ceisiadau gan fyfyrwyr israddedig, meistri neu PQ allanol fel arfer. Y rheswm am hyn yw nad yw ymchwil o'r fath yn debygol o gael ei chyhoeddi'n allanol ac, o ganlyniad, o fudd digon i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r gweithlu gofal cymdeithasol yr ydym yn gweithio gydag hwy i gyfiawnhau ein cyfraniad.
- 2.5 Fel arfer, bydd ceisiadau gan fyfyrwyr mewn lleoliadau gwaith cymdeithasol yn cael eu cefnogi lle maent yn cynnwys cyswllt â nifer cyfyngedig o staff Gofal Cymdeithasol Cymru, ond nid lle maent yn cynnwys cyswllt â

rhanddeiliaid Gofal Cymdeithasol Cymru na mynediad at ddata cysylltiedig addasrwydd i ymarfer.

Ymddygiad gwyddonol a moesegol

2.6 Er mwyn derbyn cymorth gan Ofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn ei gwneud yn ofynnol:

- bod yr ymchwil arfaethedig yn gadarn ac yn wyddonol gadarn, gyda methodoleg briodol ar gyfer y pwnc dan sylw
- bod yr ymchwil arfaethedig yn foesegol gadarn o ran ei hymddygiad a'i defnydd ac mae'n cael cymeradwyaeth gan banel moeseg perthnasol y brifysgol / sefydliad, lle bo hynny'n berthnasol
- bydd yr ymchwil arfaethedig yn cael ei chynnal yn unol â deddfwriaeth diogelu data
- bod mesurau diogelwch data priodol ar waith i gofnodi, trin a storio data yn ddiogel yn ystod y prosiect ac ar ôl cwblhau'r ymchwil
- bod cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yn cael ei warantu fel na fydd unrhyw staff Gofal Cymdeithasol Cymru, rhanddeiliaid nac achos Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu hadnabod mewn unrhyw adroddiad ymchwil
- bod y risgiau a ragwelir yn glir a nodir mesurau lliniaru perthnasol. Caiff y rhain eu pwysu yn erbyn y manteision a ragwelir. Caiff hwn ei fapio drwy gwblhau Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r ymchwil

2.7 Er mwyn cael cymorth gan Ofal Cymdeithasol Cymru, byddwn yn asesu:

- beth fydd natur y cynnig yn golygu bod angen cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru
- beth fydd costau tebygol cefnogi'r gwaith i Ofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys amser staff a darparu data, wedi'u nodi'n glir ac maent wedi'u cynnwys yn y cais am gyllid cychwynnol. Mae'r rhain yn gymesur â budd disgwylid yr ymchwil
- bod yr ymchwil ddim yn debygol o amharu ar allu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu ein gwasanaeth.

Manteision yr ymchwil

2.8 Byddwn hefyd yn asesu manteision yr ymchwil i Ofal Cymdeithasol Cymru, yn benodol:

- bod arwyddocâd posibl yr ymchwil wedi'i nodi'n glir, gan gysylltu nodau ac allbynnau. Mae hyn yn berthnasol i'n cylch [gwaith statudol a'n amcanion strategol](#), ac mae'r canfyddiadau'n debygol o fod o ddefnydd i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r rhanddeiliaid rydym yn gweithio gyda nhw
- lle mae ymchwil yn cynnwys cyswllt â'n rhanddeiliaid neu fynediad at ddata cysylltiedig addasrwydd i ymarfer, mae arwyddocâd cenedlaethol i'r ymchwil sy'n cyfrannu at sylfaen dystiolaeth arfer gorau

- nid yw'n ymddangos bod yr ymchwil yn dyblygu ymchwil debyg sy'n bodoli eisoes
- bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn modd hygyrch ac amserol, gyda chynlluniau clir ar gyfer lledaenu i ddylanwadu ar y sector gofal cymdeithasol.

2.9 Amodau ein cefnogaeth os yw cais am gyllid yn llwyddiannus:

- bydd y Rheolwr Ymchwil yn cael gwybod am unrhyw newidiadau mawr i ddyluniad neu gynllun yr ymchwil, ac yn penderfynu a oes angen ail-gymeradwyaeth.
- bydd yr ymchwilydd yn ychwanegu manylion y prosiect at ein 'Porwr Prosiectau' ar wefan y Grŵp Gwybodaeth, fel y gall eraill ddysgu am yr ymchwil sydd ar y gweill.
- bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanfyddiadau'r ymchwil ac yn cael golwg ar y canfyddiadau cyn eu cyhoeddi er mwyn paratoi am unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd neu'r cyfryngau sy'n codi o ganlyniad i'r ymchwil.
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei gydnabod mewn unrhyw adroddiadau ymchwil neu gyhoeddiadau sy'n deillio ohono.
- ar ôl ei gwblhau, bydd yr ymchwilydd yn ysgrifennu crynodeb byr o'r ymchwil - gan gynnwys unrhyw oblygiadau polisi ac ymarfer perthnasol i Gofal Cymdeithasol Cymru - ar gyfer ein sianeli digidol.

Gwrthdaro buddiannau neu oblygiadau gwleidyddol

- 3.1 Ni fyddwn yn cefnogi ymchwil lle mae'r ymchwil yn cyflwyno unrhyw wrthdaro buddiannau â'n rôl fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.
- 3.2 Rydym eisieu cefnogi ymchwilwyr gofal cymdeithasol i wneud cais am grantiau sydd ar gael yng Nghymru yn unig, tra'n sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i ymchwilwyr yng Nghymru dros ei gilydd. Byddwn yn cyfarfod ag unrhyw ymgeiswyr sy'n dod atom. Byddwn yn rhoi adborth a mewnbwn ar eu ceisiadau, ac eithrio lle mae ymchwilwyr/sefydliadau o Gymru yn cystadlu â'i gilydd am gyllid Cymru'n unig – e.e. cyllid gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Yn yr achos hwn, dim ond ardystiad y byddwn yn ei ddarparu, y gall ymchwilwyr ei ddatgan ar eu cais.
- 3.3 Ni fyddwn yn cefnogi ymchwil sydd â ddibenion masnachol, neu sydd wedi'i gyfeirio at ddatblygiad masnachol, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.

Cyfeiriwch bob ymholiad sy'n gysylltiedig â'n Fframwaith Cefnogi Ymchwil at ein Rheolwr Ymchwil Emma Taylor-Collins (emma.taylor-collins@gofalcymdeithasol.cymru).

Atodiad 1: Beth yw ymchwil gofal cymdeithasol?

1. I gyfrif fel ymchwil, **rhaid**¹ i brosiectau:

- diffinio cyfres o gwestiynau, materion neu broblemau ymchwil yr eir i'r afael â hwy yn ystod yr ymchwil. Rhaid iddo hefyd ddiffinio ei nodau a'i amcanion o ran ceisio gwella gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n ymwneud â'r cwestiynau, y materion neu'r problemau y dylid mynd i'r afael â hwy
- pennu cyd-destun ymchwil ar gyfer y cwestiynau, y materion neu'r problemau y dylid mynd i'r afael â hwy – a pham ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r cwestiynau, y materion neu'r problemau penodol hyn
- pennu'r dulliau ymchwil ar gyfer mynd i'r afael â chwestiynau, materion neu broblemau ymchwil ac ateb y cwestiynau ymchwil.

2. Diffiniwn **ymchwil gofal cymdeithasol fel** ymchwil ynghylch²:

- darparu gofal, cymorth a chymorth personol yng nghyd-destun cydberthnasau rhyngpersonol, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, mewn perthynas â: gweithgareddau bywyd bob dydd, cynnal annibyniaeth, rhyngweithio cymdeithasol, galluogi'r unigolyn i chwarae rhan lawnach mewn cymdeithas, cynorthwyo unigolion i reoli cydberthnasau cymhleth, a chynorthwyo'r unigolyn i gael mynediad at neu dderbyn gwasanaethau gan gartref gofal neu lety â chymorth arall neu i fanteisio ar gyfleusterau addysgol
- darparu cyngor; cymorth ymarferol yn y cartref; cymorth gydag offer ac addasiadau cartref; ymweld â gofal a gofal newydd; pryddau bwyd; neu gyfleusterau ar gyfer gweithgareddau galwedigaethol, cymdeithasol, diwylliannol a hamdden y tu allan i'r cartref
- darparu gwasanaethau amddiffyn neu gymorth cymdeithasol i blant neu oedolion mewn angen neu mewn perygl, neu'r rhai ag anghenion cymdeithasol sy'n deillio o salwch, anabledd, oedran neu dlodi
- anghenion cymdeithasol pobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol, a'r gwasanaethau neu'r mentrau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion hynny, gan gynnwys atal dirywiad; hybu iechyd corfforol neu feddyliol; gwella cyfleoedd a chyfleoedd bywyd; cryfhau teuluoedd; a diogelu hawliau dynol
- systemau sefydliadol, seilwaith, lleoliadau gofal, a/neu bersonél sy'n ymwneud â rheoli ac arwain, comisiynu, darparu, darparu, monitro a gwerthuso gwasanaethau gofal a chymorth, a/neu'r rhyngwyneb rhwng; neu effaith yr uchod ar systemau cysylltiedig fel gofal iechyd, addysg, tai, a'r system cyfiawnder troseddol

¹ O ddiffiniad Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) o ymchwil (<https://ahrc.ukri.org/funding/research/researchfundingguide/introduction/definitionofresearch/>)

² Datblygwyd mewn 2014 Cyd gweithdy rhanddeiliaid dan arweiniad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

- polisiau cenedlaethol a/neu leol sy'n effeithio ar ethos, comisiynu, trefniadaeth, darpariaeth, monitro a gwerthuso, a darparu gwasanaethau gofal a chymorth
- gwella cydlyniant cymdeithasol a chymunedol (yn hytrach na'r unigolyn).